
# YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence



# Amserlen wythnosol/Weekly timetable


## 12.6.23-16.6.23

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | Lluniau dosbarth/Class Photos<br>Addysg Gorfforol/Physical Education Dosbarth Mrs.Phillips(Glas)<br>Addysg Gorfforol Dosbarth Mrs.James (Gwyrdd) Physical Education (Green)<br>Dosbarth Glas a Gwyrdd Llanast Llun/Blue and Green Class (Mrs. Phillips and Mrs. James) – Messy Mondays |
| Dydd Mawrth | Gwersi Nofio Bl 1 a 2/Swimming lessons years 1 and 2 |
| Dydd Mercher | Dosbarth Gwyrdd a derbyn i deithio i Ysgol Llanychllwydog i wneud gwersi yn y coedwig. Fe fydd angen esgidiau cryf a dillad addas/Green class and reception pupils to travel to Llanychllwydog school to complete forest school activities.They will need strong shoes and weather appropriate clothing.<br>Gwersi Llinynnau/String Lessons<br>Clwb Ffitrwydd yr Urdd<br>Fe fydd angen ymaelodi i gymryd rhan. Mae'r Urdd yn codi tâl o £24 am sesiynau ar ôl ysgol y tymor hwn gyda Miss Homer, rhianhomer@urdd.org Defnyddiwch y ddolen isod i gofrestru. Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yna bydd yr ysgol yn talu'r gost hon i chi.<br>*Urdd Fitness Club 3.15-4.30, Bl 2-6*<br>*All participants must be Urdd members. There is a charge of £24 for this term's after school sessions with Miss Homer, rhianhomer@urdd.org . Please use the link below to register. If your child is eligible for free school meals then the school will meet this cost for you.*<br>https://www.urdd.cymru/cy/chwaraeon/cofrestru-gweithgareddau/ |
| Dydd Iau | Addysg Gorfforol Dosbarth Mrs.George (Melyn) & Mrs. Jones Class Physical Education (Pinc)<br>*Gwersi Chwythbrennau ac offerynnau taro/Woodwind Lessons and percussion lessons*<br>*Gwersi telyn a phiano gyda Claire Jones/Harp and piano lessons with Claire Jones @studio47*<br>*Clwb Eco/Eco Club 3.15 – 4.30p.m Bl.2-6* |
| Dydd Gwener | Gwersi telyn, piano a chanu gyda Claire Jones/Harp, piano and singing lessons with Claire Jones @studio47<br>Gwener Gwyllt - Dosbarth Melyn a Phinc |

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

# Ysgol Casmael

**Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence**



# Amserlen wythnosol/Weekly timetable

# 12.6.23-16.6.23

Hoffwn eich atgoffa bod ein diwrnod ysgol yn gorffen am 3.15y.p. mae hyn yn golygu bod y disgyblion yn rhoi eu pensiliau/peniau i lawr am 3.15y.p ac yn cael eu rhyddhau i chi cyn gynted â phosibl ar ôl yr amser hwn. Mae ein sesiynau prynhawn wedi mynd yn draed moch yn ddiweddar gyda phlant yn cael eu casglu o 2y.p ymlaen am amrywiaeth o resymau. Yn aml nid oes gennym staff cymorth yn bresennol i ateb y drws ac felly mae plant ifanc yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth. Deallaf fod gwersi nofio wedi dod yn anodd i'w trefnu'n ddiweddar a bod rhai apwyntiadau yn anodd i ail drefnu, fodd bynnag byddai'r holl staff yn ddiolchgar iawn pe baech yn ceisio osgoi'r diwrnod ysgol wrth drefnu apwyntiadau a nofio gan fod ein disgyblion wedi colli digon o amser ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pob 5 munud o addysg yn helpu. Diolch am eich dealltwriaeth.

**Please can I remind you that our school day finishes at 3.15p.m. This means that the pupils put down their pens/pencils at 3.15p.m and are released to you as soon as possible after this time. Our afternoon sessions have become very disrupted recently with children being collected from 2pm onwards for a variety of reasons. We often do not have support staff present to answer the door and so young children are being left unattended. I understand that swimming lessons have become difficult to arrange recently and that some appointments are unavoidable, however all of the staff would be really grateful if when booking appointments and swimming you can try and avoid the school day as our pupils have lost out enough during recent years, and every 5 minutes of teaching helps. Thank you for your understanding.**

## Eisteddfod yr Urdd/Urdd Eisteddfod

**Rydym mor falch o'r disgyblion a gyrhaeddodd rowndiau terfynol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd cynrychioli'r Sir mewn pum cystadleuaeth yn llwyddiant yn ei hunan i ysgol mor fach. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth, rwy'n siŵr y bydd y profiad yma yn aros yn atgofion ein disgyblion am amser hir iawn.**
**Rydym yn hynod o falch o Polly am ennill yr unawd dan 12, mae hyn yn gamp anhygoel ac yn rhywbeth y mae'n ei haeddu yn dilyn yr holl waith caled y mae wedi ei roi i'w chanu ers yn bedair oed! Llongyfarchiadau!**

**We are so proud of the pupils who reached the finals of the Urdd National Eisteddfod. Representing the County in five competitions is an amazing**

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

YSGOL CASMAEL

Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence

# Amserlen wythnosol/Weekly timetable

## 12.6.23-16.6.23

success for such a small school. Thank you all for your support, I'm sure this achievement will stay in our pupils' memories for a very long time. We are incredibly proud of Polly for winning the under 12 solo, this is an amazing achievement and something that she deserves for all of the hard work she has put into her singing since the age of four! Congratulations!





Please make sure that all of your child's clothing is labelled clearly/
Gwnewch yn siwr bod enw eich plentyn ar bob eitem o ddillad plis.

Eli ac het haul - A fyddai'n bosib i chi sicrhau bod y plant wedi gwisgo eli haul cyn dod i'r ysgol ac yn dod a het haul pan mae'r tywydd yn boeth. Diolch.
Sun cream and sun hat - Would it be possible for you to ensure that the children are wearing sun cream before coming to school and that they bring their sun hats when the weather is warm. Thank you..

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

# Ysgol Casmael

**Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence**



# Amserlen wythnosol/Weekly timetable

## 12.6.23-16.6.23

**<u>Dyddiadau Pwysig/Important dates</u>**

**16.6.23 – Gweithgareddau gyda Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro/Activities with Pembrokeshire Outdoor Learning.**
**20.6.23 – Barbeciw Sir Benfro/Pembrokeshire Barbeque – Bl.3-6**
**21.6.23 – Cystadleuaeth Criced/Cricket Competition.**
**22.6.23 – Ras yr Iaith/The Language Race – Parrog Wdig.**
**26.6.23 – Cystadleuaeth Pel Droed, Casblaidd - Wolfscastle Football competition**
**27.6.23 – Bl.6 - YBG**
**3.7.23 – Diwrnod Mabolgampau Ysgol/School Sports Day – 12.30 p.m (10.7.23 reserve date)**
**4.7.23 – Drama Jemeima – Theatr Gwaun**
**7.7.23 – Bl.6 Preseli, Caer Elen a YBG**
**17.7.23 – Diwrnod Sea Trust – Clwb Eco**
**17.7.23 – Ffair Haf/Summer Fair**
**19.7.23 – Gwasanaeth Ymadael/Leavers' Service 1.30p.m**
**21.7.23 – Diwedd Tymor/Last day of school.**

**<u>Gwaith cartref am yr hanner tymor yma – bl 3-6</u>**. Mae 6 her i gwblhau erbyn y 17eg o Orffennaf – J2E ac ebost - (Blwyddyn 3 a 4 i gwblhau o leiaf 4 her). Gallwch gyflwyno eich gwaith mewn unrhyw ffurf. Cofiwch ddefnyddio Hwb os hoffech chi weithio'n ddigidol. Bydd cyfle i ddathlu eich gwaith cartref ar y 19eg o Orffennaf. Bydd eich rhieni yn gallu dod mewn i'r ysgol i weld eich gwaith ar ol gwasanaeth ymadael blwyddyn 6.

**<u>Years 3- 6 Homework for this half term</u>**. There are 6 challenges to complete by the 17$^{th}$ of July – J2E and email (Years 3 and 4 to complete at least 4 challenges). You can present your work in any way. Remember to use Hwb if you'd like to work digitally. We will hold a homework celebration on the 19$^{th}$ July. Your parents are welcome to come into school and see a display of your work after the year 6 leavers service.

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

YSGOL CASMAEL
Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence

# Amserlen wythnosol/Weekly timetable

## 12.6.23-16.6.23

<u>**Ty Crwn/Roundhouse**</u>

Wythnos hon rydym wedi cwblhau prosiect cyffrous iawn ar gyfer ein staff a'n disgyblion. Ers cael gwared o'n tŷ crwn pren y llynedd rydym wedi bod yn gweld eisiau ein "ystafell ddosbarth awyr agored". Mae Mr Michael Williams wedi dod i'n hachub a mesur a pharatoi'r tir ar gyfer canopi newydd hardd iawn sydd bellach wedi'i osod gyda chymorth Mr Duncan Wintern, Mr. Peter Devonald, Mr. Dylan James a Mr. David Nicholas. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r dynion yma am roi o'u hamser a'u hadnoddau mewn ffordd mor hael – mae'r gofod newydd sydd gyda ni nawr yn wych! Diolch!

**This week has ssen the completion of a very exciting project for staff and pupils. Since the removal of our wooden roundhouse last year we have been missing our "outdoor classroom". Mr Michael Williams has come to our rescue and measures, sourced and prepared the ground for a very beautiful new canopy which has now been fitted with the help of Mr Duncan Wintern, Mr. Peter Devonald, Mr. Dylan James and Mr. David Nicholas. We are extremely grateful to these gentlemen for giving of their time and resources so generously – the space is fabulous! Thank you!**



Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

## YSGOL CASMAEL

**Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence**

# Amserlen wythnosol/Weekly timetable

# 12.6.23-16.6.23

**Presenoldeb/Attendance**

Wrth i ni symud mewn i'r hanner tymor diwethaf y flwyddyn, plîs gwnewch bob ymdrech i barhau i gefnogi a hyrwyddo presenoldeb da gyda'ch plentyn.
Fel y gwelwch o'r siart isod roedd mis Mawrth yn fis da iawn i ni, gan ein bod yn agos at frig y siart. Fodd bynnag, ar gyfer rhai misoedd rydym yn agos at y gwaelod. Ystyriwch yn ofalus faint o ysgol mae eich plentyn wedi ei golli dros y blynyddoedd diwethaf wrth ystyried unrhyw wyliau neu deithiau bach yn ystod y tymor, a chofiwch bob angen anfon cais am wyliau i fi o flaen llaw er mwyn derbyn caniatâd wrth ein corff llywodraethol.
Ein targed presenoldeb fel ysgol eleni yw 95%, fodd bynnag targed cyffredinol Sir Benfro yw 98%, felly mae gennym lawer o waith i'w wneud!
Gobeithio y gallwn wneud ymdrech gyda'n gilydd i gael presenoldeb arbennig o hyn tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Diolch am eich cefnogaeth.

**As we move into the final half term of the year, please continue to support and promote good attendance with your child.**
**You will see from the chart below that March was a very good month for us, placing us near the top of the table. However some months we are close to the bottom. Please consider carefully how much school your child has lost over the last few years when considering any holidays or mini breaks during term time, and remember all requests for holidays have to made to myself and agreed by the governing body.**
**Our attendance target as a school this year is 95%, however the overall Pembrokeshire target is 98%, we have a lot of work to do!**
**I hope that we can together make an effort to have great attendance from now until the end of this academic year. Thank you for your support.**

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

